



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Rhagoriaeth Ystadau: Ein Strategaeth 2023 - 2033



Cynnwys

Rhagair 01

Pam fod angen strategaeth newydd arnom? 04

Ble ydym ni nawr: ein sefyllfa bresennol? 05

Rhagoriaeth Ystadau: trawsnewid ein hystâd 07

Ein Gweledigaeth ar gyfer Yr Ystâd

Ein Themâu

Ystâd ddiogel o ansawdd uchel sy'n rhoi profiad gwyh

Adeiladau iach a phobl iachach

Lleihau ein heffaith

Defnyddio ein hystâd i sicrhau'r budd mwyaf a gwerth cymdeithasol i'r gymuned

Sut olwg fydd ar ein hystâd yn 2033? 12

Mesur Ein Llwyddiant 15

Rhagair

Croeso cynnes iawn i 'Rhagoriaeth Ystadau', gweledigaeth a strategaeth Ystadau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Rydym yn falch iawn o'r gofal a'r gwasanaethau rhagorol a ddarparwn i gleifion, rhoddwyr, ystod eang o bartneriaid a'n hanes o lwyddiant.

Rydym yn poeni'n fawr am y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, ac yn gweld yn glir y gwahaniaeth y gall ystâd ddiogel, o ansawdd uchel, hygyrch a chynaliadwy ei wneud i'n cefnogi i wella ansawdd, diogelwch, profiad a chanlyniadau'r gwasanaethau a ddarparwn yn barhaus.

Rydym yn awyddus i adeiladu ar ein gorffennol wrth i ni edrych i'r dyfodol ac mae ein Strategaeth Ymddiriedolaeth 'Cyrchfan 2033' yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y sefydliad dros y blynyddoedd i ddod wrth i ni geisio cyflawni ein pwrpas a'n gweledigaeth.

Ein Pwrpas:

Gwella Bywydau

Ein Gweledigaeth:

Gofal Ardderchog,
Dysgu Ysbrydoledig,
Pobl Iachach

Rydym wedi nodi pum nod strategol y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y blynyddoedd i ddod. Credwn y bydd cyflawni'r nodau hyn yn gweld yr Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau i gleifion, rhoddwyr a'n partneriaid sy'n cymharu â'r gorau yn y DU ac Ewrop.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r Ymddiriedolaeth gydag ystod eang o gyfleoedd o'n blaenau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd yr ystâd o ran darparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a'n nodau hirdymor.

Mae darparu ystâd o ansawdd uchel yn hanfodol i ni gyflawni ein huchelgeisiau gan fod angen iddi ymateb yn effeithiol i anghenion ein cleifion, rhoddwyr a staff, ynghyd â'r gwasanaethau a ddarparwn ac anghenion ehangach y cymunedau rydym yn byw ac yn gweithredu ynddynt. Mae'r ystâd yn rhan bwysig o'n llwyddiant yn y dyfodol, ac mae'n hanfodol inni fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r ystâd, cynaliadwyedd a chyfleoedd ehangach yn eu cynnig i greu gwerth cymdeithasol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae 'Rhagoriaeth Ystadau' yn nodi ein strategaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf a bydd yn ein helpu i wneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n bodoli. Mae'n nodi pa ystâd sydd ei hangen arnom nawr ac yn y dyfodol, a sut y byddwn yn gweithio gyda'n cleifion, rhoddwyr, staff a chymunedau i sicrhau eu bod yn cael profiad diogel a phleserus sy'n helpu i wella eu hiechyd a'u lles cyffredinol. Mae hefyd yn nodi sut y gallwn ddefnyddio ein hystâd a'n cyfleusterau i wneud cyfraniad ehangach i gymunedau a chymdeithas.

Nod Strategol 1:

Eithriadol o ran ansawdd,
diogelwch a phrofiad

Nod Strategol 2:

Darparwr o fri rhyngwladol o
wasanaethau clinigol eithriadol
sydd bob amser yn bodloni
disgwyliadau ac yn rhagori arnynt

Nod Strategol 3:

Sefydliad disglair ar gyfer
ymchwil, datblygu ac arloesi
yn ein meysydd blaenoriaeth

Nod Strategol 4:

Ymddiriedolaeth Prifysgol
sefydledig sy'n darparu
gwybodaeth a dysg werthfawr
iawn i bawb

Nod Strategol 5:

Sefydliad cynaliadwy sy'n
chwarae ei ran i greu dyfodol
gwell i bobl ledled y byd



Pam Mae Angen Strategaeth Newydd arnom?

Ar draws ein holl wasanaethau a'r system iechyd a gofal ehangach, mae'n amlwg bod pethau'n newid:

Rydym yn gwasanaethu poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, gydag amrywiaeth o heriau lleol yn ymwneud ag iechyd, afiechyd ac anghydraddoldebau, sy'n gofyn inni gydlynw a chydgyssylltu gofal yn well.



Mae disgwyliadau pobl yn newid gyda'r disgwyliad rhesymol y bydd ein gwasanaethau'n cael eu personoli i'w hanghenion. Mae ein hadeiladau, ein cyfleusterau a'n mannau gwyrdd yn rhan hanfodol o brofiad cleifion, rhoddwyr a staff, maent yn ganolog i wella iechyd meddwl a llesiant, a byddant yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu cymunedau ffyniannus a chadarn.



Mae Cymru lachach yn nodi llwybr olir i symud o afiechyd i lesiant. Mae lleihau effaith amgylcheddol ac iechyd ein hystad yn flaenoriaeth i GIG Cymru.



Mae technoleg, y Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol, yn rhoi cyfle i ofal iechyd drawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, gan gynyddu'r gwerth i gleifion, rhoddwyr a'n partneriaid mewn ffordd fwy cynaliadwy.



Mae angen inni leihau allyriadau carbon, ysgogi effeithlonrwydd ynni, lleihau plastigion a gwastraff, gwella ansawdd aer a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon i symud o afiechyd i les.



Yr argyfwng hinsawdd a'r angen i ddatblygu dull cynaliadwy o fyw ar y blaned; her fyd-eang y mae angen inni ymateb iddi.



Ble Ydym Ni Nawr?

Ein Hystâd

Mae ein gwasanaeth gwaed a thrawsblannu yn cwmpasu Cymru gyfan, ac mae ein gwasanaethau cancer yn cwmpasu De-ddwyrain Cymru. Mae'r ddau yn cael eu darparu trwy fodel 'hyb a lloerennau' gyda gwasanaethau'n cael eu darparu yn y cartref, yn lleol gyda chymunedau, ac mewn nifer o leoliadau sefydlog rydym yn berchen arnynt, yn eu prydlesu neu'n eu rhannu gyda'n partneriaid.

Pencadlys yr Ymddiriedolaeth

Mae adeilad pencadlys yr Ymddiriedolaeth, a leolir yn Nantgarw, Caerdydd, yn gartref i swyddogaeth weithredol a chorfforaethol y sefydliad.

Gwasanaethau Cancer

Rydym yn darparu'r gwasanaethau hyn o nifer o leoliadau:

Canolfan Ganser Felindre

Mae Canolfan Ganser Felindre wedi'i lleoli yng Nghaerdydd ac mae'n darparu gwasanaethau cancer anfeddygol arbenigol i tua 1.5 miliwn o bobl sy'n byw yn Ne Ddwyrain Cymru. Adeiladwyd y Ganolfan yn 1966 ac mae wedi bod yn destun estyniadau amrywiol bob degawd ers agor, gyda'r gwaith adeiladu mawr diwethaf yn y 2000au. Mae gan yr ysbyty ôl troed o 14,718m², gyda 70% o adeiladau yn 40 oed.

Cyfleusterau Felindre@

Rydym yn darparu gwasanaethau ar draws De-ddwyrain Cymru o adeiladau a chyfleusterau ar draws safleoedd Byrddau Iechyd partner.

Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblannu

Mae gennym nifer o leoliadau gan gynnwys:

Tonysguboriau, Llantrisant

Adeiladwyd yn 2003/2004 ac wedi'i ymestyn rhwng 2017-2019, mae bellach yn darparu

Gwasanaethau Clinigol ac Ardal Labordy Ysbyty. Mae gan yr adeilad ôl troed o 6,981m² gyda 80% o'r safle yn 18 oed.

Dafen

Wedi'i leoli yn Llanelli a phrif ganolfan ein timau casglu yng Ngorllewin Cymru, mae gan yr adeilad ôl troed o 356m² ac mae'n gartref i'r holl nwyddau traul sydd eu hangen i gefnogi casgliadau. Mae'r adeilad hwn ar brydles tan 2025.


Bangor

Dyma brif ganolfan ein timau casglu yng Ngogledd Cymru. Mae gan yr adeilad ôl troed o 520m² ac mae'n cynnwys yr holl nwyddau traul sydd eu hangen i gefnogi casgliadau. Mae'r adeilad hwn ar brydles tan 2024.

Wrecsam (Tŷ Penfro)

Mae Tŷ Penfro yn meddiannu arwynebedd llawr o 465m² o ran maint ac mae ar brydles tan 2025. Prif bwrpas yr adeilad hwn yw gweithredu fel uned cadw stoc sy'n darparu cynhyrchion gwaed i ysbytai Gogledd Cymru. Mae hefyd yn brif ganolfan gweithrediadau ar gyfer y tîm casgliadau yn rhanbarth Gogledd Ddwyrain Cymru.

Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau o adeiladau amrywiol ledled Cymru sy'n eiddo i amrywiaeth o bartneriaid i gefnogi ein model darparu gwasanaeth 'hyb a lloerennau'. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau o fewn cymunedau lleol ac ar safleoedd ysbytai lleol.



Cyflwr Ein Hystâd

Rheolir cyflwr yr ystâd trwy fuddsoddiad strategol a chynlluniau cynnal a chadw gweithredol i gynnal adeiladau a chyfleusterau o ansawdd uchel i gleifion, rhoddwyr a staff.

Canolfan Ganser Felindre

Cyflwr Corfforol B %	63
Oedran Adeiladu	70% >40 blwyddyn
Ymarferoldeb Uwch Cod F %	64
Defnydd Gofod F neu Uwch %	100
Cyflwr Diogelwch Tân B %	80

Tŷ Penfro

Cyflwr Corfforol B %	100
Oedran Adeiladu	25 blwyddyn
Ymarferoldeb Uwch Cod F %	99
Defnydd Gofod F neu Uwch %	100
Cyflwr Diogelwch Tân B %	99

Pencadlys Gwasanaeth Gwaed Cymru

Cyflwr Corfforol B %	8595
Oedran Adeiladu	18 blwyddyn
Ymarferoldeb Uwch Cod F %	100
Defnydd Gofod F neu Uwch %	95
Cyflwr Diogelwch Tân B %	95

Bangor

Cyflwr Corfforol B %	90
Oedran Adeiladu	20 blwyddyn
Ymarferoldeb Uwch Cod F %	100
Defnydd Gofod F neu Uwch %	100
Cyflwr Diogelwch Tân B %	99

Dafen

Cyflwr Corfforol B %	95
Oedran Adeiladu	15 blwyddyn
Ymarferoldeb Uwch Cod F %	100
Defnydd Gofod F neu Uwch %	100
Cyflwr Diogelwch Tân B %	95

Rhagoriaeth Ystadau:

Trawsnewid Ein Hystâd

Ein gweledigaeth:

Ystâd gynaliadwy sy'n darparu profiad gwych i bawb


Rydym wedi datblygu pedair thema i ddatblygu ein hystâd:

1. Ystâd ddiogel o ansawdd uchel sy'n darparu profiad gwych

2. Adeiladau iach a phobl iachach

3. Lleihau ein heffaith

4. Defnyddio ein hystâd i ddarparu'r budd mwyaf a'r gwerth cymdeithasol mwyaf i'r gymuned



Thema 1:

Stad ddiogel o ansawdd uchel sy'n darparu profiad gwy

Ein Hamcanion yw:

- Datblygu ystâd sy'n cefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen rhagorol
- Darparu profiad o'r radd flaenaf i gleifion, rhoddwyr a staff wrth ddefnyddio ein hadeiladau a'n cyfleusterau
- Cyflawni'r holl rwymedigaethau statudol mewn perthynas â'r ystâd a'r adeiladau tra'n lleihau costau gweithredu
- Ddylunio mewn rhagoriaeth trwy fabwysiadu agwedd cynaliadwyedd yn gyntaf at bob adeilad newydd
- Gwella'r wybodaeth sydd gennym am berfformiad yr ystâd i alluogi dull effeithiol sy'n seiliedig ar risg o reoli a blaenoriaethu adnoddau
- Ddylunio i safon ragorol BREEAM fel safon ofynnol yn ein holl adeiladau newydd yn y rhaglen gyfalaf fawr, ynghyd â'r gofyniad iddynt gael eu datblygu gan ddefnyddio egwyddorion economi gylchol
- Buddsoddi mewn amrywiaeth o adeiladau a chyfleusterau sydd wedi'u dylunio â chynaliadwyedd yn ganolog iddynt i gyflawni Rhagoriaeth BREEAM. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwaith adnewyddu mawr ac uwchraddio seilwaith ym Mhencadlys Gwasanaeth Gwaed Cymru yn 2026
- adeiladu Canolfan Loeren Radiotherapi yn Nevill Hall erbyn 2024
- adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd erbyn 2025/2026

Byddwn yn cyflawni rhain drwy:

- Ddylunio'r ystâd o amgylch y modelau clinigol hyb a lloerennau a ddefnyddir gan ein gwasanaeth gwaed a thrawsblannu a'n gwasanaethau canser
- Ymgysylltu'n barhaus â defnyddwyr ein hystâd i ddeall sut y gellir ei dylunio, ei haddasu neu ei gwella i ddiwallu eu hanghenion yn well
- Buddsoddi ein hadnoddau'n ddoeth i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth statudol a gofynion atal heintiau
- Cael y pethau sylfaenol yn eu lle: pob adeilad i fod ag amgylchedd cyfforddus, digon o le parcio hygyrch, Wi-Fi a mynediad hawdd i ac o drafnidiaeth gyhoeddus
- Buddsoddi yn ein hystâd trwy'r rhaglen gyfalaf i sicrhau bod ein holl gyfleusterau bob amser yn cyrraedd safon Categori B o leiaf
- Gweithio gyda chontractwyr i ddefnyddio dull costio cylch bywyd cyfan ar gyfer pob prosiect cyfalaf mawr, adnewyddu adeiladau ac adeiladau newydd

Thema 2:

Adeiladau iach a phobl iachach

Ein Hamcanion yw:

- Darparu adeiladau a lleoedd sy'n helpu i wella iechyd a lles cleifion, rhoddwyr a staff
- Defnyddio ein hadeiladau fel adnodd i gefnogi gwell iechyd a lles yn y cymunedau lleol rydym yn eu gwasanaethu
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo buddion cyfalaf naturiol ar gyfer iechyd a llesiant corfforol a meddyliol ymhlith ein cleifion, rhoddwyr, staff a chymunedau ehangach
- blaenoriaethu mynediad i olau naturiol, awyru, mannau gwyrdd a seilwaith teithio llesol wrth adnewyddu a datblygu ystâd yr Ymddiriedolaeth
- canolbwyntio ar ddylunio mewnol ac allanol i gynnwys detholiad o ddeunyddiau sy'n meddalu'r gofod mewnol ac yn gwneud y lleoliad yn ddymunol i weithio ynddo
- manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ailgynllunio ein hadeiladau a'n mannau gwaith i gynnig mwy o weithio hyblyg drwy ddefnyddio technoleg ddigidol

Byddwn yn cyflawni rhain drwy:

- Integreiddio gofynion lleihau carbon a chynaliadwyedd ffurfiol mewn briffiau prosiect, dogfennau tendro a chontractau i sicrhau bod ein hystâd cyfredol ac yn y dyfodol yn cael ei hadnewyddu, ei dylunio a'i hadeiladu i gael effaith carbon isel
- Ddylunio ein hadeiladau i hybu ymddygiad cynaliadwy a bod yn hyblyg ac yn wydn yn erbyn newid hinsawdd, gan gefnogi ein taith tuag at lwybrau carbon isel i gleifion a rhoddwyr.
- Gweithio gyda'n staff, cymunedau lleol, y sector gwirfoddol a busnes i nodi sut y gallwn wneud i'n tir, ein hadeiladau a'n cyfleusterau weithio'n well er mwyn i bobl gefnogi iechyd a llesiant

Bydd hyn yn cynnwys:

- darparu gwell mynediad i gyfleusterau i gleifion, rhoddwyr a staff, gyda phawb yn cael mynediad i fannau gorffwys, bwyd a diodydd a mannau awyr agored o chwilfrydedd a mwynhad
- creu mannau gweithio hyblyg sy'n caniatáu rheolaeth unigol ar oleuadau ac amodau amgylcheddol i hyrwyddo defnydd aml-swyddogaethol o ofod y gellir ei deilwra i fodloni gofynion unigol

Thema 3:

Lleihau ein heffaith

Ein Hamcanion yw:

- Lleihau ein defnydd o ynni i redeg yr ystâd gan leihau 100% allyriadau carbon gweithredol
- Datblygu gweithlu aml-sgil a gwybodys i gefnogi trawsnewid ein hystâd

Byddwn yn cyflawni rhain drwy:

- Gwella ein gwaith monitro a rheoli ynni a ddefnyddir i redeg yr ystâd trwy gyflwyno technoleg GLYFAR a'r Rhyngrwyd Pethau
- Rhoi ein cynllun datgarboneiddio ar waith i leihau a dileu carbon o'r ystâd
- Sefydlu rhaglen uchelgeisiol o brosiectau lleihau carbon, ynni ac adnoddau cyfyngedig i leihau'r defnydd o ynni a thrawsnewid i ynni adnewyddadwy 100% gan gynnwys:
 - gwella ein mesur a monitro o ynni ar draws ein hystâd
 - ymateb yn gyflym i unrhyw aneffeithlonrwydd ynni y gellir ei atal megis gorboethi neu ollyngiadau trwy systemau monitro a chanfod gollyngiadau effeithiol
 - ôl-ffitio ein hadeiladau presennol i gefnogi defnydd mwy effeithlon o ynni
 - gwella'r defnydd o ofod clinigol i wella effeithlonrwydd a gwneud y defnydd gorau o'n hasedau ar gyfer gofal clinigol, profiad a chanlyniadau rhagorol
 - gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant ein hasedau hirdymor trwy waredu a rhesymoli yn unol â'r hyb, a modelau model canolbwynt a lloeren clinigol y gwasanaethau gwaed a thrawsblannu a chanser

- adolygu'r potensial ar gyfer lleihau'r angen am adeilad y pencadlys presennol yn y dyfodol
- uwchraddio ein hadeiladau, peiriannau ac offer presennol i leihau defnydd a defnyddio ynni yn fwy effeithlon
- gwneud yn wyrdd ein gweithgareddau caffael ystadau a datgarboneiddio ein cadwyn gyflenwi
- pennu ynni adnewyddadwy pan fyddwn yn gwneud trefniadau prynu newydd ar gyfer lleihau trydan a chostio cylch bywyd

- Chwilio am ffyrdd o wella ansawdd aer ar ein safleoedd
- Datblygu rhaglen addysg a gweithredu i hyrwyddo ymddygiad cynaliadwy ymhlith ein staff a'r bobl sy'n defnyddio ein hadeiladau
- Datblygu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer ein staff, cleifion, rhoddwyr a phartneriaid a all gefnogi newidiadau ymddygiad sy'n lleihau ein defnydd o ynni
- Gweithio gyda staff i roi ein polisi gweithio ystwyth ar waith i leihau'r angen i staff deithio a defnyddio adeiladau
- Nodi cyfleoedd i rannu cyfleusterau gyda sefydliadau partner i leihau ein hól troed ystadau cyfunol
- Datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau a'r cymhwysedd i gefnogi ystâd werdd a chynaliadwy

Thema 4:

Defnyddio ein hystâd i ddarparu'r budd mwyaf a'r gwerth cymdeithasol mwyaf i'r gymuned

Ein Hamcanion yw:

- Defnyddio ein hadeiladau a'n cyfleusterau fel asedau cymunedol i gynyddu'r gwerth y gall ein cymunedau lleol ei gynhyrchu o'n gwasanaethau
- Defnyddio ein hystâd i helpu i leihau anghydraddoldebau yng Nghymru a sicrhau'r budd mwyaf i bobl, cymunedau lleol a Chymru


Byddwn yn cyflawni rhain drwy:

- Gweithio ar y cyd â phartneriaid cymunedol i wneud y defnydd gorau o'n hadeiladau a'n tiroedd ar gyfer y bobl rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn yn:
 - ymgysylltu â rhanddeiliaid i gynllunio a darparu adeiladau a chyfleusterau ledled Cymru sydd â chysylltiad strategol â chynlluniau ein partneriaid i wella mynediad at wasanaethau
 - nodi cyfleoedd i rannu adeiladau ac asedau gyda phartneriaid i'w gwneud yn haws i bobl ddiwallu eu hanghenion mewn 'un stop'
- Datblygu hyfforddiant, lleoliadau gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd cyflogaeth i bobl leol, dysgwyr a myfyrwyr
- Ceisio aildefnyddio, ail-bwrpasu a dod ag adeiladau yn ôl yn fyw mewn cymunedau lleol sy'n cefnogi gwydnwch cymunedol


- Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i nodi ffyrdd y gall grwpiau lleol ddefnyddio ein hadeiladau a'n hystâd fel adnodd cymunedol i gynhyrchu iechyd, cyfoeth, ffyniant a llawenydd yn lleol. Er enghraifft, defnydd o'n hystâd gan ysgolion lleol, grwpiau elusennol, dangosiadau ffilm neu raglenni celfyddydol
- Nodi ystod o gynigion y gallem eu gwneud ar draws ein hystâd sy'n gwneud gwahaniaeth yn lleol, megis darparu band eang a Wi-Fi yn yr adeiladau lleol a ddefnyddiwn y gall y gymuned eu defnyddio fel mater o drefn
- Cyrchu a chaffael nwyddau a gwasanaethau i redeg yr ystâd yn lleol lle bo modd er mwyn cynyddu cyfoeth a ffyniant

Sut Olwg Fydd ar Ein Hystâd yn 2033?

Mae ein gwasanaethau'n seiliedig ar fodel hyb a lloerennau, a byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau o wahanol adeiladau ledled Cymru, rhai yr ydym yn berchen arnynt/ eu prydlesu a rhai a ddarperir gan ein partneriaid.



Sut y bydd yr ystâd yn gwneud gwahaniaeth i'n cleifion



Stori Helen (claf Gwasanaeth Canser)

Cyfeirir Helen atom gan ei Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer canser y thyroid. Mae'n derbyn manylion ei hapwyntiad ac yn penderfynu y bydd yn gyrru i'w hapwyntiad yng Nghanolfan Ganser Felindre. Gan ddefnyddio'r ap ar ei ffôn clyfar mae'n archebu ei lle parcio gan nad yw am fod yn rhuthro o gwmpas pan fydd yn cyrraedd.

Er bod Helen wedi archebu ei lle parcio ymlaen llaw mae hi braidd yn bryderus ynghylch dod o hyd iddo. Pan yw'n cyrraedd mae'n falch o weld bod yr arwyddion yn glir iawn, ac mae llif y maes parcio yn ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i'w lle ar gadw.

Yna mae Helen yn gwneud y siwrnai fer i'r dderbynfâ ac mae'n nodi ei bod hefyd wedi'i harwyddo'n dda ac yn hawdd dod o hyd iddi. Wrth fynd i mewn i'r adeilad mae hi'n sylwi ar unwaith pa mor olau, eang ac esmwythol yw'r awyrgylch. Mae'r gwaith celf ar y waliau wedi'i wneud gan blant ysgol ac artistiaid lleol. Mae hi'n darllen o arwydd bod ganddynt ddefnydd o'r adeilad y tu allan i oriau clinigol ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau dysgu a mannau ymarfer corff.


Ar ôl defnyddio'r mewngofnodi digidol mae Helen yn mynd i'r caffi i gael diod. Mae hi'n eistedd wrth ymyl ffenestr sy'n edrych dros y tiroedd; cymysgedd o gynefin naturiol,

perllannau, amgylcheddau dysgu agored. Mae hi'n gweld gwirfoddolwyr yn gofalu am y rhandiroedd sy'n tyfu llysiau a ddefnyddir yng ngheginau'r Ganolfan Ganser. Mae hyn yn helpu Helen i ymlacio ychydig ac yn lleihau ei phryder. Wrth fynd i dderbynfâ'r cleifion allanol, mae Helen yn cael ei chyfarch gan ein staff. Maen nhw'n mynd â hi i'r ystafell driniaeth lle gall staff addasu'r tymheredd i sicrhau ei bod hi mor gyfforddus â phosibl.

Unwaith y bydd ei thriniaeth wedi'i chwblhau, mae Helen yn gadael yr adeilad gan ddilyn un o'r llwybrau cerdded gwyrdd a fydd yn mynd â hi o amgylch y tiroedd. Mae hi'n mwynhau bioamrywiaeth y safle, gan gynnwys yr amrywiaeth o goed, planhigion, pryfed a bywyd gwylt lleol. Wrth i Helen ddychwelyd i'r maes parcio mae'n dod ar draws ei ffrind, Sally, nad yw hi wedi'i gweld ers peth amser. Mae Sally'n dweud wrth Helen ei bod bellach yn rhan o gôr lleol sy'n defnyddio'r adeilad ar gyfer ymarferion y tu allan i oriau clinigol; mae'n gwahodd Helen ac yn gobeithio y bydd yn ymuno â'r côr yn y dyfodol.

Sut bydd yr ystâd yn gwneud gwahaniaeth i'n staff

Stori Jane (aelod o staff Gwasanaeth Gwaed Cymru)



Mae Jane yn cyrraedd ei gwaith yn adeilad Pencadlys Gwasanaeth Gwaed Cymru ac yn sylwi bod angen gwefru ei char. Mae hi'n parcio wrth ymyl un o'r nifer o wefrwyr cerbydau trydan sydd wedi'u lleoli yn y maes parcio ac yn rhoi'r car i'w wefru.

Mae'n ddiwrnod cynnes ac wrth i Jane gerdded i'r adeilad mae'n gweld cydweithwyr yn eistedd y tu allan yn gweithio ar ddyfeisiau symudol ac yn mwynhau'r amgylchedd naturiol a'r amrywiaeth o goed, blodau a llwyni sydd wedi tyfu a'r adar a'r trychfilod y maent yn eu denu.

Wrth i Jane ddod i mewn i'r adeilad mae'n sylwi ar y rheolaeth tymheredd o fewn yr adeilad a'r cloc lleihau CO2 ar y wal sy'n dangos faint o CO2 sydd wedi'i leihau'n flynyddol; un o amcanion mawr yr Ymddiriedolaeth.

Mae Jane yn newid ac yn mynd i'r man y mae hi wedi'i archebu yn yr adeilad ar gyfer cyfarfod tîm. Mae'r man cyfarfod pwrpasol yn galluogi'r tîm i gael sgursiau gwell a defnyddio'r byrddau wal gwydr i ddatblygu syniadau.

Yn dilyn y cyfarfod, mae Jane yn mynd am ginio ac yn cael ychydig o awyr iach gan ddilyn llwybr yr afon o amgylch y safle, trwy'r llwybr coetir. Mae sŵn yr afon a'r adar yn ei helpu i ymlacio a chanolbwyntio ar y foment.

Mae Jane yn dychwelyd i'w gwaith ac yn gorffen ei thasgau am y dydd. Yna mae'n mynd i'r ardal lles staff y tu allan ac yn ymuno â'r dosbarth ioga ac ymwybyddiaeth ofalgar wythnosol sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwr o grŵp lleol sydd wedi bod yn defnyddio'r adeilad ar ôl oriau gweithredu.

Wedi ymlacio ar ôl ei sesiwn yoga, mae Jane yn dychwelyd i'w char ac yn gwneud y daith adref.

Mesur Ein Llwyddiant

Stad ddiogel o ansawdd uchel sy'n darparu amgylchedd gwych i ymwelwyr a staff

- Ôl-groniad cynnal a chadw blynyddol
- % gwaith cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio yn cael ei wneud ar amser
- % o safon Categori B yr ystâd
- Adeiladau rhagorol BREEAM
- Cydymffurfio â gofynion statudol
- Gostyngiad mewn digwyddiadau diogelwch
- Gostyngiad mewn damweiniau/digwyddiadau/digwyddiadau a fu bron â digwydd

Adeiladau lech, Pobl iachach


- % o gleifion a rhoddwyr yn graddio'r amgylchedd yn rhagorol
- % o staff yn graddio eu hamgylchedd gwaith yn rhagorol
- Cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth ac anabledd

Defnyddio ein hystâd i sicrhau'r budd mwyaf a gwerth cymdeithasol i'r gymuned

- % o asedau adeiladu sydd ar gael i'w defnyddio gan randdeiliaid cymunedol lleol (i) % argaeledd i'r gymuned leol a ddefnyddiwyd
- % enillion net bioamrywiaeth ar ystâd
- % o staff yn teithio i'r gwaith drwy (i) cerdded (ii) beic (iii) trafnidiaeth gyhoeddus (iv) car (v) siwrneiau car deiliadaeth sengl

Stad effeithlon sy'n lleihau defnydd ynni ac ôl troed carbon yr Ymddiriedolaeth

- Ffurflen Flynyddol EFPMS
- % defnydd o'r ystâd
- Gostyngiad mewn allyriadau CO2
- Lleihawyd ôl troed carbon cyffredinol yr ystâd
- Defnydd llai o ddŵr
- Defnydd llai o ynni
- Defnydd llai o nwy
- % ynni o ffynonellau adnewyddadwy
- % lleihad gwastraff yn gyffredinol
- % o wastraff i safleoedd tirlenwi
- Gwastraff cyffredinol a grëwyd (i). % ailgylchu (ii). % i safleoedd tirlenwi
- Costau gweithredu fel % o gyllideb





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Cyrchfan 2033